OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 483 (Cy. 154)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Ebrill 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 18(1) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 5 o Atodlen 3 iddi, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2016 a daw i rym ar 5 Ebrill 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998(**2**).

**Diwygio erthygl 3 o'r prif Orchymyn**

**2.** Mae erthygl 3 o'r prif Orchymyn wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (2)(c), yn yr ail le y mae'n ymddangos, hepgorer "and";

(b) ym mharagraff (2)(d), yn lle "." rhodder "; and"; ac

(c) ar ôl paragraff (2)(d) mewnosoder—

"(e) to provide—

(i) information about health conditions and availability of health services; and

(ii) remote access health advisory, triage and referral services,

for the purposes of the health service in Wales."

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1998/678, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/201 (Cy. 26) ac O.S. 2013/2729 (Cy. 263).

*Vaughan Gething*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Ebrill 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'n nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio ymhellach Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998 er mwyn diwygio swyddogaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae'r swyddogaethau wedi eu diwygio i roi i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru y swyddogaeth o ddarparu gwybodaeth am gyflyrau iechyd ac argaeledd gwasanaethau iechyd a darparu mynediad o bell i wasanaethau cynghori ar iechyd ac i wasanaethau brysbennu ac atgyfeirio at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.